

CBAC Lefel 3

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Arholiad Allanol)





Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Arholiad Allanol)

Uned 330: Egwyddorion a
Damcaniaethau sy'n Dylanwadu ar
Ofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad
Plant yn yr 21ain Ganrif yng Nghymru

I'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2020

Cynnwys

		Tudalen
Arholiad Allanol:	Papur cwestiynau	5
	Cynllun marcio	17

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan					Rhif yr Ymgeisydd				
						0				



LEFEL 3

GOFAL, CHWARAE, DYSGU A
DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A
THEORI

**Uned 330: Egwyddorion a
Damcaniaethau sy'n Dylanwadu ar
Ofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad
Plant yn yr 21ain Ganrif yng Nghymru**

**DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL
(ARHOLIAD ALLANOL)**

AM/PM [*dyddiad*]

120 munud

At ddefnydd yr Arholwr yn unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc a Ddyfarnwyd
1	9	
2	5	
3	6	
4	10	
5	10	
6	20	
7	6	
8	14	
9	6	
10	4	
11	10	
Cyfanswm	100	

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

Gwybodaeth i ymgeiswyr

Cyfanswm y marciau am y papur yw 100.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

CYNLLUN MARCIO

Canllawiau i arholwyr

Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad, a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu, yn hytrach na'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael dim marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae cynnwys ymadrodd fel '*Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall*' (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu rhywfaint o amrywiad yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid yw cwestiwn yn gofyn yn benodol am rywbeth, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr am ateb sy'n gywir ond wedi'i fynegi yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a all gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd brig y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Yn Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori, bydd pob cwestiwn yn mynd i'r afael ag un neu fwy o amcanion asesu: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau i ddyrannu cwestiwn i amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Caiff ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau eu hasesu yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle mae cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, bydd marc yn cael ei roi am bob amcan asesu a bydd y marciau hynny wedyn yn cael eu hadio at ei gilydd i roi cyfanswm marciau ar gyfer y cwestiwn hwnnw.

Dylid bob amser fod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol; nid ydyn nhw'n cael eu tynnu o uchafswm oherwydd gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Mae dau gam i'r broses hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os yw'r disgrifyddion ar y band isaf yn cael eu bodloni, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' i benderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw'r rhan fwyaf o'r ateb ym mand 2, ond bod ychydig o gynnwys band 3 hefyd, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a roddir yn agos at frig band 2 oherwydd cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau y mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau nhw â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb yr ymgeisydd o safon uwch, is neu debyg i'r enghraifft. Rhaid i'r arholwyr gofio bod angen cyfeirio'n ôl at yr ateb wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a bennir yn briodol.

Cynllun Marcio						
Cwestiwn	Ateb	Cyfa nsw m Marc	AA1	AA2	AA3	
1.	(a) 1.1	<p>Mae Huw yn 2 oed ac yn mynychu meithrinfa ddydd. Mae ymarfer arsylwi a gwblhawyd yn ddiweddar wedi nodi bod Huw yn hoffi cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.</p> <p>Amlinellwch sut y gallai gweithgaredd adeiladu ffau (<i>den</i>) yn yr awyr agored helpu Huw i ddatblygu dw sgil gorfforol.</p> <p>Rhowch hyd at 2 farc am bob amlinelliad.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1 marc am amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r sgiliau corfforol y gallai Huw eu datblygu drwy fynd ati i adeiladu ffau yn yr awyr agored.</p> <p>Rhowch 2 farc am amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r sgiliau corfforol y gallai Huw eu datblygu drwy fynd ati i adeiladu ffau yn yr awyr agored.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> e.e. gallai tynnu a symud gwrthrychau ddatblygu ffitrwydd/cryfhau ei gyhyrau bydd codi, defnyddio symudiadau corff cyfan yn datblygu sgiliau echddygol bras bydd lleoli/gosod eitemau mewn mannau penodol, casglu adnoddau naturiol yn datblygu sgiliau echddygol manwl bydd paentio mwd, gwaith celf, gwehyddu helygen yn datblygu cydsymud llaw a llygad bydd dringo, symud o gwmpas gwrthrychau, camu yn datblygu'r gallu i gadw cydbwysedd/ymwybyddiaeth ofodol. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb addas arall.</p>	4	4		

	<p>(b) 1.1</p> <p>Dadansoddwch sut y gallai mynd ati i adeiladu ffau gydag eraill hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol Huw hefyd.</p> <p>Rhowch hyd at 5 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am ddadansoddiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o ddefnydd o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gallai mynd ati i adeiladu ffau gydag eraill hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol Huw hefyd.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am ddadansoddiad da sy'n dangos defnydd o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gallai mynd ati i adeiladu ffau gydag eraill hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol Huw hefyd.</p> <p>Rhowch 5 marc am ddadansoddiad da iawn sy'n dangos defnydd manwl o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gallai mynd ati i adeiladu ffau gydag eraill hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol Huw hefyd.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bydd Huw yn datblygu sgiliau adeiladu tîm am ei fod yn gweithio gydag eraill • caiff sgiliau cyfathrebu eu datblygu oherwydd bydd adeiladu ffau yn arwain at ddatrys problemau e.e. strwythur, rheoli adnoddau • bydd yn cefnogi rhannu syniadau – mae'n rhaid bod gan bawb lais e.e. beth fydd yn gweithio/na fydd yn gweithio • bydd yn hybu datblygiad cymdeithasol – safbwyntiau unigol, trafodaethau • caiff sgiliau chwarae rôl eu datblygu e.e. efelychu prosesau, rhannu profiadau personol neu ddylanwadau • cymryd tro – bydd yn annog datblygiad amynedd, ystyried eraill – empathi • datblygu meddyliau, teimladau ac emosiynau • datblygu dychymyg/creadigrwydd • datblygu gwydnwch – sgiliau rheoli gwrthdaro • hybu her a sgiliau cymryd risgiau e.e. ystyried iechyd a diogelwch/diogelwch eraill – ystyried a yw'r ffau yn ddiogel? • datblygu sgiliau cyfathrebu – datblygu iaith er mwyn cefnogi sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch • cefnogi chwarae ar y cyd yn hytrach na chwarae unigol sy'n datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb addas arall.</p>	5		5	
--	--	---	--	---	--

2.	1.2	<p>Disgrifiwch sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.</p> <p>Rhowch hyd at 5 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.</p> <p>Rhowch 5 marc am ddisgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae rhaglen Cynllun Gwên yn cefnogi iechyd a llesiant cadarnhaol i blant 0-19 oed.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n rhaglen ataliol i wella iechyd y geg i blant • mae'n cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi sy'n cydweithio i hybu iechyd – amlasiantaethol • mae'n rhoi cyngor i rieni – eu hannog i hybu hylendid y geg da gartref • mae'n rhoi cyngor i leoliadau – fel y gallant gysylltu â bwyta'n iach amser byrbryd • darparu brwshys dannedd a phast dannedd am ddim i blant • darparu hyfforddiant gorfodol i staff/gweithwyr i roi'r rhaglen ar waith yn y lleoliad • cynllun yn darparu gweithgareddau sy'n annog brwsio dannedd fel mater o drefn • staff yn annog modelau rôl, arferion da ac yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir i gefnogi'r rhaglen • mae'r rhaglen yn hyrwyddo canu caneuon, bydd taflenni gweithgareddau ac ati sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd yn darparu profiadau dysgu ystyrllon • galluogi lleoliadau i weithio gyda theuluoedd/gofalwyr – felly'n atgyfnerthu iechyd y geg cadarnhaol. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb addas arall.</p>	5	5		
----	-----	---	---	---	--	--

Cwestiwn		Ateb	Cyfa nsw m Marc	AA1	AA2	AA3
3.	1.3	<p>Mae Jayne yn 14 oed ac mae ganddi frawd iau sy'n 6 oed. Yn ddiweddar, mae Jayne wedi cymryd mwy o gyfrifoldeb yn y cartref gan fod ei mam yn methu â symud mwyach ar ôl damwain.</p> <p>Aseswch sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne.</p> <p>Rhowch hyd at 6 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am asesiad sylfaenol o sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am asesiad da o sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne.</p> <p>Rhowch 5-6 marc am asesiad da iawno sut y gallai'r newid hwn mewn amgylchiadau effeithio ar iechyd a llesiant Jayne.</p> <p>Rhowch farciau am ymatebion sy'n gadarnhaol neu'n negyddol, nid oes rhaid i ymgeiswyr gyfeirio at y dda i ennill marciau llawn.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gallai'r cyfrifoldeb ychwanegol olygu bod yn rhaid iddi dreulio mwy o amser gartref a fydd yn atgyfnerthu ei chydberthynas â'i mam a'i brawd • helpu o amgylch y tŷ – bydd Jayne yn dysgu sgiliau bywyd gwerthfawr newydd • efallai y bydd Jayne yn mwynhau rôl oedolyn yn helpu i ofalu am ei brawd • gallai Jayne feithrin cydberthnasau newydd ag eraill a all fod yn helpu i ofalu am y teulu – gwasanaethau cymdeithasol, ffrindiau, aelodau eraill o'r teulu • allai Jayne wneud yn well mewn addysg os yw'n aros gartref mwy gyda'r nos -- mwy o amser i adolygu ac ati • gallai Jayne ddatblygu ei hunan-barch, yn falch o'r hyn mae'n ei wneud • efallai y bydd Jayne yn teimlo bod ei theulu yn ei gwerthfawrogi'n fwy am ei bod yn helpu i ofalu amdanynt • gallai Jayne deimlo dan bwysau gyda'r gwaith ychwanegol gartref • gallai Jayne brofi iselder/teimlo'n unig/blinder • gallai Jayne gael anaf corfforol wrth godi ac ati • efallai na fydd Jayne a'i theulu yn bwyta'n briodol – prydau rheolaidd neu gytbwys • efallai y bydd Jayne yn gweld eisiau ei ffrindiau • efallai y bydd Jayne ar ei hôl hi mewn addysg • efallai y bydd Jayne yn datblygu problemau hunan-barch • gallai colli'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith (gwaith tŷ/gofalu) effeithio ar Jayne • dim amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, clybiau ac ati <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	6			6

Cwestiwn		Ateb	Cyfan swm Marc	AA1	AA2	AA3
4	(a) 2.2	<p>Mae damcaniaethau ynghylch ymddygiad yn chwarae rôl allweddol wrth ddeall y ffordd y mae plant yn ymddwyn.</p> <p>Amlinellwch brif egwyddorion damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura.</p> <p>Rhowch hyd at 4 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1 marc am amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o brif egwyddorion damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura.</p> <p>Rhowch 2-3 marc am amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o brif egwyddorion damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura.</p> <p>Rhowch 4 marc am amlinelliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o brif egwyddorion damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r ddamcaniaeth yn seiliedig ar y gred y caiff ymddygiad ei ddysgu o'r amgylchedd • mae ei ddamcaniaeth yn cefnogi dysgu drwy arsylwi • roedd yn seiliedig ar arsylwadau gyda phlant ac oedolion • mae'n atgyfnerthu bod plant yn dysgu'r hyn maent yn ei weld/dysgu'r hyn maent yn ei fyw • mae'n nodi pŵer modelu ymddygiad – efelychu/llunio ymddygiad • mae'n dangos y ffordd y gall dylanwadau amgylcheddol – cartref, amgylchedd teuluol, ysgol/lleoliad, pwysau gan gyfoedion effeithio ar ymddygiad • mae'n nodi canlyniadau negyddol a chadarnhaol ar ymddygiad: atgyfnerthu – cadarnhaol a chosbi – negyddol • arbrawf dol Bobo <ul style="list-style-type: none"> • nododd ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad a'r ddealltwriaeth o ddysgu drwy arsylwi a chanolbwyntio ar ymosodedd • edrychodd ar y ffordd mae plant yn dangos ymddygiad treisgar neu ymosodol/bwlio ac ymatebion plant iddo – cylch camdriniaeth. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	4	4		

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marc	AA1	AA2	AA3
4.	(b) 2.2	<p>Archwiliwch sut y gall ymwybyddiaeth o ddamcaniaeth Bandura mewn lleoliadau gefnogi ymddygiad cadarnhaol gan blant.</p> <p>Rhowch hyd at 6 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 marc am archwiliad sylfaenol o sut y gall ymwybyddiaeth o ddamcaniaeth Bandura mewn lleoliadau gefnogi ymddygiad cadarnhaol gan blant.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am archwiliad da o sut y gall ymwybyddiaeth o ddamcaniaeth Bandura mewn lleoliadau gefnogi ymddygiad cadarnhaol gan blant.</p> <p>Rhowch 5-6 marc am archwiliad da iawn o sut y gall ymwybyddiaeth o ddamcaniaeth Bandura mewn lleoliadau gefnogi ymddygiad cadarnhaol gan blant.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <p>Bydd ymwybyddiaeth o'r ddamcaniaeth yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol i weithwyr ymddwyn mewn ffordd a fydd yn hybu ymddygiad cadarnhaol • sicrhau ymatebion ac ymddygiadau priodol gan oedolion, pwysigrwydd modelau rôl cadarnhaol gan y canlynol: gweithwyr, rhieni/gofalwyr ac eraill • annog prosesau rheoli ymddygiad priodol • annog ymarfer i ddefnyddio gweithdrefnau atgyfnerthu cadarnhaol e.e. nodau a ffiniau, strategaethau gwobrwyo/tegwch/safonau cyson o ran disgwyliad a chyfrifoldebau/trefn benodol • annog gweithwyr ac eraill i ddefnyddio prosesau cyfathrebu priodol • annog pawb i ddangos cwrteisi e.e. ymddygiad tuag at eraill • cefnogi gwybodaeth am sut y bydd cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau gyda'r plant yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol e.e. gweithgareddau bwyta'n iach, golchi dwylo • hybu'r angen i weithio gyda rhieni neu eraill yn y lleoliad • annog osgoi cynhyrfu, datrys anghytundebau, meithrin cydberthnasau ac annog eraill. <p>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys a allai gynnwys cyfeiriad ar yr hyn a welwyd mewn lleoliad.</p> <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	6			6

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marc	AA1	AA2	AA3
5	(a) 2.1	<p>Mae Rhiannon yn byw gyda'i gŵr, Tomos, sydd wedi dychwelyd o'r lluoedd arfog yn ddiweddar, a'u mab, Dewi, sy'n 2 ½ oed. Yn ystod sgwrs ddiweddar â'r ymwelydd iechyd, mynegodd y ddau riant bryderon mewn perthynas â newidiadau yn ymddygiad Dewi yn y cartref ac yn y Cylch Meithrin, lle mae'n dawlach nag arfer ac nid yw am ymuno mewn gweithgareddau.</p> <p>Awgrymwch y rhesymau posibl dros y newidiadau o ran ymddygiad Dewi.</p> <p>Rhowch hyd at 5 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am awgrymiadau sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau posibl dros y newidiadau o ran ymddygiad Dewi.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am awgrymiadau da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau posibl dros y newidiadau o ran ymddygiad Dewi.</p> <p>Rhowch 5 marc am awgrymiadau da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r rhesymau posibl dros y newidiadau o ran ymddygiad Dewi.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Dewi yn profi newid annisgwyl – dad yn ôl • efallai ei fod yn dawlach yn yr ysgol oherwydd bod ei dad gartref – felly nid yw am fynd i'r ysgol, mae am fod gartref gyda dad • efallai ei fod yn flinedig oherwydd efallai ei fod yn gwneud mwy o weithgareddau gyda'i dad neu gyda'r teulu am fod ei dad yno bellach • efallai ei fod eisiau mwy o sylw nawr bod ganddo ddau riant gartref a gallai ei ddatblygiad/ymddygiad lithro'n ôl • efallai fod Rhiannon am dreulio amser gyda'i gŵr hefyd felly efallai fod llai o amser ganddi i Dewi, gallai hyn ei wneud yn genfigennus o'i dad • efallai ei fod yn ofnus neu'n bryderus y bydd ei dad yn gadael eto • gall ei dad fod yn fwy dieithr i Dewi – efallai fod diffyg bondio ac ymlyniad. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	5	5		

Cwestiwn	Ateb	Cyfa nsw m Marc	AA1	AA2	AA3
5.	<p>(b) 2.2</p> <p>Mae nifer o wasanaethau a all gynnig cefnogaeth i deuluoedd er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol plant.</p> <p>Rhowch grynodedb o'r math o gefnogaeth gallai 'Tîm o Amgylch y Teulu' ei ddarparu i deuluoedd sy'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad.</p> <p>Rhowch hyd at 5 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am grynodedb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r math o gefnogaeth y gallai 'Tîm o Amgylch y Teulu' ei ddarparu i deuluoedd sy'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am grynodedb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r math o gefnogaeth y gallai 'Tîm o Amgylch y Teulu' ei ddarparu i deuluoedd sy'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad.</p> <p>Rhowch 5 marc am grynodedb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r math o gefnogaeth y gallai 'Tîm o Amgylch y Teulu' ei ddarparu i deuluoedd sy'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gallu asesu a nodi problemau mewn perthynas ag unrhyw newid o ran ymddygiad • gallu awgrymu atebion posibl i'r problemau a thrafod y gefnogaeth sydd ar gael gan asiantaethau eraill • gallu sefydlu cynlluniau wedi'u teilwra/unigol i'r teulu a chydweithio i gefnogi newidiadau cadarnhaol i ymddygiad plant • gallu nodi aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol/amlasiantaethol a allai gefnogi i fodloni anghenion y teulu • gallu cefnogi'r teulu cyfan i feithrin cydberthnasau a fydd yna yn hybu iechyd a llesiant emosiynol y teulu drwy weithio mewn partneriaeth <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	5	5		

Cwestiwn	Ateb	Cyfanswm Marc	AA1	AA2	AA3
6.	<p>(a) 3.1/3 .3</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau iechyd yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl yr enedigaeth.</p> <p>Disgrifiwch sut y gallai bydwaig gefnogi a rheoli gofal mam sy'n disgwyl ei hail blentyn, pan gafodd hi anawsterau yn ystod ei beichiogrwydd cyntaf. Cyfeiriwch at wasanaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru (SCG).</p> <p>Rhowch hyd at 8 marc</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am ddisgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut y gallai bydwaig gefnogi a rheoli gofal mam sy'n disgwyl ei hail blentyn, pan gafodd hi anawsterau yn ystod ei beichiogrwydd cyntaf.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gallai bydwaig gefnogi a rheoli gofal mam sy'n disgwyl ei hail blentyn, pan gafodd hi anawsterau yn ystod ei beichiogrwydd cyntaf.</p> <p>Rhowch 5-6 marc am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gallai bydwaig gefnogi a rheoli gofal mam sy'n disgwyl ei hail blentyn, pan gafodd hi anawsterau yn ystod ei beichiogrwydd cyntaf.</p> <p>Rhowch 7-8 marc am ddisgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut y gallai bydwaig gefnogi a rheoli gofal mam sy'n disgwyl ei hail blentyn, pan gafodd hi anawsterau yn ystod ei beichiogrwydd cyntaf.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhannu opsiynau ar gyfer beichiogrwydd iach ac ar gyfer y geni a helpu i gynllunio ar gyfer beichiogrwydd a geni iach • darparu'r wybodaeth ddiweddaraf oherwydd efallai fod pethau wedi newid ers ei beichiogrwydd diwethaf • trafod profion sgrinio cynnedigol rheolaidd y gallai fod eu hangen arni: <ul style="list-style-type: none"> • sganiau uwchsain • profion gwaed • neu unrhyw brofion eraill sydd ar gael fel rhan o SCG • rhoi sicrwydd bod popeth fel sy'n ofynnol os nad oes unrhyw beth i awgrymu y bydd cymhlethdodau yn digwydd eto – lleddfau gorbryder • darparu apwyntiadau rheolaidd i gadw llygad ar ddatblygiad mam a'r baban yn ystod pob cam o'r beichiogrwydd 	8	8		


	<ul style="list-style-type: none"> • bydd y fydwraig yn cefnogi gwaith y meddyg teulu neu'r obstetregydd fel bod gofal yn barhaus • ymweld â'r cartref os oes angen yn ogystal â gweld mam yn y clinig <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>				
(b) 3.1/3 .2	<p>Esboniwch y gwahaniaeth rhwng prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd a'r rhai nad ydynt yn rheolaidd.</p> <p>Rhowch 0 marc: am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1 marc am esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd a'r rhai nad ydynt yn rheolaidd.</p> <p>Rhowch 2 marc am esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd a'r rhai nad ydynt yn rheolaidd.</p> <p>Rhowch 3 marc am esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r gwahaniaeth rhwng prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd a'r rhai nad ydynt yn rheolaidd.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <p>Mae prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd ar gael i bawb, am ddim, gan y GIG yng Nghymru</p> <p>Nid yw prosesau sgrinio, monitro, a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd ar gael i bawb am eu bod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • brofion ar gyfer cyflyrau iechyd ac anhwylderau penodol • profion a ariennir gan y GIG, dim ond os oes angen clinigol • profion a ariennir gan unigolion sy'n chwilio am ymyriadau pellach/nad ydynt wedi'u comisiynu gan GIG Cymru. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	3		3	

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marc	AA1	AA2	AA3
6.	(c) 3.2	<p>Aseswch effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenedlu hyd at 19 oed.</p> <p>Rhowch hyd at 9 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-3 marc am asesiad sylfaenol o effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenedlu hyd at 19 oed.</p> <p>Rhowch 4-5 marc am asesiad cyfyngedig o effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenedlu hyd at 19 oed.</p> <p>Rhowch 6-7 marc am asesiad da o effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenedlu hyd at 19 oed.</p> <p>Rhowch 8-9 marc am asesiad ardderchog o effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenedlu hyd at 19 oed.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • os caiff pryderon iechyd eu nodi, gellir gwneud penderfyniadau cynnar mewn perthynas â thriniaeth, opsiynau, gofal neu gamau gweithredu sydd eu hangen yn y dyfodol • mae'n sicrhau y gellir cael gafael ar driniaeth yn gyflymach a fydd yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd plentyn • gellir osgoi cael triniaeth nad oes ei hangen – byddai hyn o fudd i'r plentyn, y teulu/gofalwyr a gwasanaethau iechyd eraill • mae'n sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu'n llawn o'r dechrau ac y gallant gefnogi eu plant yn unol â hynny/cael eu cefnogi eu hunain • bydd yn cefnogi datblygiad y plentyn wrth fynychu lleoliadau drwy gynhwysiant • mae'n golygu y gellir rhoi cynlluniau iechyd dysgu/unigol priodol ar waith i fodloni anghenion y plentyn • cael ymwybyddiaeth gynnar o anghenion iechyd penodol a rhoi triniaeth osgoi problemau wrth gymdeithasoli, colli cyfleoedd a phrofiadau, yn ystod blynyddoedd ffurfiannol a hanfodol • gallai nodi cyflwr beri llai o straen i'r plentyn wrth dyfu i fyny am fod pawb yn gwybod â beth maen nhw'n delio • gall cael gwybodaeth am gyflyrau iechyd osgoi problemau iechyd yn gwaethygu oherwydd diffyg cefnogaeth neu ymwybyddiaeth • gellir osgoi unrhyw labelu diangen neu dybiaeth pam bod plentyn yn ymddwyn mewn ffordd wahanol <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	9			9

Cwestiwn		Ateb	Cyfan swm Marc	AA1	AA2	AA3
7.	4.1/ 4.2	<p>Mae Bob yn dad sy'n gweithio ac mae'n byw gyda'i fab Ifan, ac ef yn unig sy'n gyfrifol amdano. Mae Ifan, sy'n 15 oed, yn mynychu'r ysgol gyfun leol ac mae wedi cael ei nodi'n ddysgwr 'Mwy Abl a Thalentog' (MAT). Mae Bob yn ymddiddori'n fawr yn addysg Ifan, a byddai'n hoffi iddo gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau allgyrsiol.</p> <p>Trafodwch amrywiaeth o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol y gallai Ifan gymryd rhan ynddynt i fodloni ei anghenion.</p> <p>Rhowch hyd at 6 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am drafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol y gallai Ifan gymryd rhan ynddynt i fodloni ei anghenion.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am drafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol y gallai Ifan gymryd rhan ynddynt i fodloni ei anghenion.</p> <p>Rhowch 5-6 marc am drafodaeth dda iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o amrywiaeth o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol y gallai Ifan gymryd rhan ynddynt i fodloni ei anghenion.</p> <p>Rhowch uchafswm o 4 marc os mai dim ond cyfleoedd ffurfiol neu anffurfiol sy'n cael eu trafod.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <p>Cyfleoedd ffurfiol: Cwricwlwm Cenedlaethol Statudol</p> <ul style="list-style-type: none"> • gall Ifan gymryd rhan mewn gwaith tîm yn ei wersi pwnc benodol a amserlennwyd • gallai Ifan fanteisio ar gyfleoedd entrepreneuraidd a all godi drwy wersi pwnc benodol • dewisiadau pwnc er mwyn cynnig gwaith gwahaniaethol/dull gweithredu unigol i Ifan • Tystysgrif Her Sgiliau – detholiad o heriau priodol • cofrestru'n gynnar ar gyfer arholiadau ffurfiol e.e. TGAU/ TAG 	6		6	

	<ul style="list-style-type: none">• mentora dysgwyr eraill y mae angen cefnogaeth arnynt mewn gwersi pwnc benodol• ymuno â system gyfeillio gyda dysgwyr MAT eraill. <p>Gall cyfleoedd anffurfiol fod yn unrhyw weithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd ymestyn a herio i Ifan:</p> <ul style="list-style-type: none">• cymdeithasau gemau bwrdd/clwb gwyddbwyll• heriau croeseiriau/Sudoko• cymdeithasau dadlau• cynlluniau Dug Caeredin• clybiau barddoniaeth/llyfrau• chwaraeon/clybiau - timau• clybiau cyfrifiadur/gweithdai TG• band cerddoriaeth/sesiynau unigol/gwersi peripatetig• grwpiau ieuenctid wedi'u trefnu. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>				
--	---	--	--	--	--

Cwestiwn		Ateb	Cyfan swm Marc	AA1	AA2	AA3
8.	(a) 4.3	<p>Yn ddiweddar, mae Peter wedi dechrau rôl newydd fel cynorthwydd dosbarth gyda disgyblion blwyddyn 6. Heddiw mae Peter yn cefnogi grŵp o blant sy'n gorffen eu modelau awyren.</p> <p>Mae Mair, un o'r grŵp, sydd mewn cadair olwyn, yn awyddus i ddangos ei model i Peter.</p> <p>Mae Bethan, cydweithiwr profiadol, yn dweud wrth Peter ei bod wrth ei bodd â chanlyniad y gweithgaredd hwn oherwydd weithiau bydd Mair yn dewis darllen llyfr yn hytrach na chymryd rhan mewn gweithgarwch gwneud model.</p> <p>Dylech gyfiawnhau sut mae mabwysiadu dull gweithredu plentyn-ganolog o fudd i Mair a'r plant eraill yn y lleoliad.</p> <p>Rhowch hyd at 6 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am gyfiawnhad sylfaenol o sut mae mabwysiadu dull gweithredu plentyn-ganolog o fudd i Mair a'r plant eraill yn y lleoliad.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am gyfiawnhad da o sut mae mabwysiadu dull gweithredu plentyn-ganolog o fudd i Mair a'r plant eraill yn y lleoliad.</p> <p>Rhowch 5-6 marc am gyfiawnhad da iawn o sut mae mabwysiadu dull gweithredu plentyn-ganolog ar y plentyn o fudd i Mair a'r plant eraill yn y lleoliad.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae Mair a'r plant eraill yn cael cyfle i gael eu herio • mae gwahaniaethu cadarnhaol yn golygu bod anghenion Mair ac anghenion y plant eraill yn y lleoliad yn cael eu diwallu • gall Mair gymryd rhan ym mhob gweithgaredd, gall hyn helpu i oresgyn stereoteipio – gall rhai dybio na all Mair gymryd rhan yn y gweithgaredd creu awyren am ei bod mewn cadair olwyn • mae hawliau Mair a'r plant eraill yn cael eu bodloni fel rhan o CCUHP • mae Mair a'r plant eraill yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion • Mae'n hybu cydraddoldeb, tegwch ac amrywiaeth i bawb – ni fydd Mair yn teimlo ei bod yn cael ei gadael allan, ac ni fydd yn teimlo nad yw ei hanghenion/dymuniadau'n cael eu bodloni. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	6			6

Cwestiwn	Ateb	Cyfan swm Marc	AA1	AA2	AA3
8. (b) 4.4	<p style="text-align: center;">Cylch Dysgu Kolb</p>  <p style="text-align: center;"> profiadau – gweithgaredd/camau gweithredu myfyrio – meddwl am yr hyn ddigwyddodd cysyniadu – beth a ddysgwyd cynllunio – gweithredu/casgliadau </p> <p>Esboniwch, gan gyfeirio'n glir ag Gylch Dysgu Kolb, y broses y dylai Bethan ei dilyn wrth fyfyrto ar weithgareddau plentyn-ganolog.</p> <p>Rhowch hyd at 8 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am esboniad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth (heb gyfeirio fawr ddim at gylch dysgu Kolb) o'r broses y dylai Bethan ei dilyn wrth fyfyrto ar weithgareddau plentyn-ganolog.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth (gyda chyfeiriad cyfyngedig at gylch dysgu Kolb) o'r broses y dylai Bethan ei dilyn wrth fyfyrto ar weithgareddau plentyn-ganolog.</p> <p>Rhowch 5-6 marc am esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda (gan gyfeirio'n briodol at gylch dysgu Kolb) o'r broses y dylai Bethan ei dilyn wrth fyfyrto ar weithgareddau plentyn-ganolog.</p> <p>Rhowch 7-8 marc am esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl (gan gyfeirio'n benodol at gylch dysgu Kolb) o'r broses y dylai Bethan ei dilyn wrth fyfyrto ar weithgareddau plentyn-ganolog.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p>	8		8	

	<ul style="list-style-type: none"> • Y Profiadau – ystyriwch y gweithgaredd, sut y cafodd ei gynllunio, pwy oedd yn rhan o'r gwaith cynllunio ac a oedd y plant yn rhan o'r gwaith cynllunio? Ystyriwch a gafodd anghenion y plant eu hystyried. Nodau ac amcanion – wedi'u pennu gan ystyried anghenion y plant. • Myfyrio – ystyriwch p'un a gymerodd pob plentyn ran yn y gweithgarwch, sut y byddai hyn wedi effeithio ar y plant, a chydweithwyr. Ystyriwch sut y gallai unrhyw blant deimlo os cânt eu gadael allan o weithgareddau a beth fyddai barn eu rhieni/gofalwyr am hyn. • Cysyniadu – deall canlyniadau gweithredoedd yn cynnwys pan nad yw'r gweithgareddau'n blentyn-ganolog: diffyg cynhwysiant, gwahaniaethu, peidio â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau/cydraddoldeb/stereoteipio/profiad andwyol ar y plant a pham efallai fod unrhyw faterion wedi codi. Mae angen i'r lleoliad ystyried beth a ddysgwyd o unrhyw fyfyrddodau a hefyd ystyried adnoddau/cyfarpar priodol y mae angen iddynt fod ar gael i sicrhau bod y gweithgareddau'n blentyn-ganolog ac yn gynhwysol. • Cynllunio – camau gweithredu i fabwysiadu/dylunio gweithgareddau plentyn-ganolog y tro nesaf er mwyn cynnig profiadau gwerth chweil i bawb. Mae angen sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys e.e. paru plant, sicrhau gwahaniaethu a chynhwysiant, gweithgareddau dysgu ystyrlon. <p>Gall ymatebion ymwneud â dysgu damcaniaethol a chyfeirio at brofiadau yn y gweithle.</p> <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>				
--	--	--	--	--	--

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marc	AA1	AA2	AA3
9.	5.2	<p>Caiff dŵr ei ddefnyddio fel cyfle i chwarae mewn amrywiaeth o leoliadau i hybu dysgu. Esboniwch sut y gall chwarae â dŵr gael ei ddefnyddio i gefnogi dysgu drwy brofiad yn y Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Rhowch hyd at 6 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gall chwarae â dŵr gefnogi agweddau ar gwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gall chwarae â dŵr gefnogi agweddau ar gwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Rhowch 5-6 marc am esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut y gall chwarae â dŵr gefnogi agweddau ar gwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'n annog plant i gymryd risgiau a dod yn chwilotwyr hyderus • mae'n eu galluogi i fynegi syniadau a theimladau yn greadigol • mae'n addysgu dealltwriaeth o reolau am ddiogelwch a pherygl • mae'n datblygu sgiliau datrys problemau – mathemateg a gwyddoniaeth mewn ffordd ymarferol mewn amgylchedd llawn hwyl • dysgu drwy ddefnyddio cymariaethau uniongyrchol â: hyd, uchder a phellter, e.e. <i>hirach/byrrach na</i> pwysau/màs, e.e. <i>trymach/ysgafnach na</i> cynhwysedd, e.e. <i>yn dal mwy/llai na</i> e.e. <i>trymach/ysgafnach na</i> cynhwysedd, e.e. <i>yn dal mwy/llai na</i> • datblygu ymdeimlad o hwyl a mwynhad – cefnogi datblygiad sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, gwydnwch • galluogi plant i fagu hyder drwy hap a damwain • chwarae ar y cyd – cymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr ag eraill, gydag ychydig o ryngweithio. 	6		6	

	<ul style="list-style-type: none">• ymestyn yr eirfa drwy ddefnyddio dysgu cinesthetig ymarferol, addysgu geiriau newydd, e.e. sblasio, arllwys, taenu• galluogi plant i ddewis cyfarpar ac adnoddau priodol• deall sut mae rhai deunyddiau bob dydd yn newid siâp pan fyddant yn cael eu hymestyn, eu gwasgu, eu plygu a'u troi e.e. sbwng, deunyddiau naturiol• cydsymud llaw a llygad - arllwys dŵr i mewn i lestri. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>				
--	--	--	--	--	--

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marc	AA1	AA2	AA3
10	5.4	<p>Disgrifiwch y ffordd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.</p> <p>Rhowch hyd at 4 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r ffordd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.</p> <p>Rhowch 2-3 marc am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.</p> <p>Rhowch 4 marc am ddisgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae plant yn cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol • mae pobl yn gwrando ar blant, yn eu trin â pharch, ac yn cydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol • mae gan blant gartref clyd a diogel a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol • mae pob lleoliad yn sicrhau bod hawliau plant yn hollbwysig e.e. mae'n rhaid i'w hanghenion gael blaenoriaeth ym mhob sefyllfa • mae plant yn cael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu • mae plant yn cael cefnogaeth i fwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio/diogelu • mae gan blant yr hawl i fyw bywyd llawn a bodlon ag urddas • caiff safbwyntiau plant eu parchu felly mae plant yn cymryd mwy o ran mewn gwaith cynllunio • nid ddylai plant fod dan anfantais oherwydd tlodi plant. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>	4		4	

Cwestiwn		Ateb	Cyfan swm Marc	AA1	AA2	AA3
11.	5.1	<p>Myfyriwch ar y ffordd mae dull gweithredu Reggio Emilia wedi dylanwadu ar ymarfer cyfredol mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Rhowch hyd at 10 marc.</p> <p>Rhowch 0 marc am ymateb nad yw'n haeddu ennill marciau.</p> <p>Rhowch 1-2 farc am fyfyrddod cyfyngedig ar ddylanwad dull gweithredu Reggio Emilia er mwyn llywio ymarfer mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Rhowch 3-4 marc am fyfyrddod sylfaenol ar ddylanwad dull gweithredu Reggio Emilia er mwyn llywio ymarfer mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Rhowch 5-7 marc am fyfyrddod da ar ddylanwad dull gweithredu Reggio Emilia er mwyn llywio ymarfer mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Rhowch 8-10 marc am fyfyrddod ardderchog ar ddylanwad dull gweithredu Reggio Emilia er mwyn llywio ymarfer mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Gall yr ymateb gyfeirio at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae dull gweithredu Reggio Emilia yn seiliedig ar y gred bod gan blant hawliau ac y dylid rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu potensial – dyma sydd wrth wraidd y cyfnod sylfaen • mae'r dull gweithredu yn annog plant i rannu eu meddyliau a'u syniadau – dyma pam mae lleoliadau yn cynnal amser cylch • mae dull gweithredu Reggio Emilia yn awgrymu bod plant yn cael cyfleoedd i archwilio, arsylwi, creu rhagdybiaeth, cwestiynu a myfyrio ar weithgareddau a thrafod i egluro eu dealltwriaeth • mae dull gweithredu Reggio Emilia yn cefnogi cynhwysiant a gwahaniaethu – mae'r defnydd o weithwyr allweddol a sesiynau un i un yn seiliedig ar yr addysgwr ychwanegol hwn • dylai plant gael eu hannog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol e.e. cerfio clai, oherwydd gall y celfyddydau 	10			10

		<p>mynegiannol roi'r cyfle i blant edrych ar eu byd a'i brofi mewn nifer o ffyrdd gwahanol</p> <ul style="list-style-type: none"> • argymhellir dull gweithredu plentyn-ganolog yn y cyfnod sylfaen, mae plant yn dewis eu pynciau a'u gweithgareddau eu hunain -- dim ond yn rhannol y defnyddir hyn mewn lleoliadau fframwaith cwricwlaidd • mae ystafelloedd dosbarth cyfnod sylfaen bellach yn fwy cysylltiedig i alluogi symud o un i'r llall • yn seiliedig ar ddull gweithredu Reggio Emilia, mae gan blant mynediad agored at ardaloedd chwarae a chyfarpar awyr agored bellach e.e. welintons a chotiau ar gael • mae lluniau o waith plant ac enghreifftiau o ffotograffau bellach wedi'u harddangos yn fwy eang mewn amgylcheddau ystafell ddosbarth – mae hyn yn hyrwyddo dathlu llwyddiannau, gwella hunan-barch • mwy o gyfranogiad gan rieni i gefnogi dysgu'r plant – polisi drws agored, anfon ffotograffau o waith adref fel y gall rhieni weld cynnydd • mae hoff bethau a chas bethau plant yn nodweddion allweddol o ganlyniad i'r dull gweithredu hwn a'r dylanwad hwn a chânt eu hymgorffori yng ngwaith cynllunio athrawon • mae arsylwi yn rhan sylfaenol o wella canlyniadau, a chreu strategaethau i alluogi plant i ddatblygu eu diddordebau • mae gwaith grŵp yn allweddol – caiff plant eu hannog gan athrawon i ddatblygu prosiectau a datrys problemau ymhlith ei gilydd • wedi annog y lleoliad i wneud addasiadau i'w hamgylcheddau er mwyn creu cysylltiad ffisegol rhwng y tu mewn a'r tu allan, efallai ar ffurf canopiâu sy'n gorchuddio a ferandâu. <p>Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.</p>				
--	--	---	--	--	--	--

Mapio Amcanion Asesu: Arholiad Allanol - Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (NID YW HYN YN DDANGOSOL AR GYFER POB ARHOLIAD)					
	Cynnwys	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
1. (a)	1.1	4			4
(b)	1.1		5		5
2.	1.2	5			5
3.	1.3			6	6
4. (a)	2.2	4			4
(b)	2.2			6	6
5. (a)	2.1	5			5
(b)	2.2	5			5
6. (a)	3.1/3.3	8			8
(b)	3.1/3.2		3		3
(c)	3.2			9	9
7.	4.1/4.2		6		6
8. (a)	4.3			6	6
(b)	4.4		8		8
9.	5.2		6		6
10.	5.4		4		4
11.	5.1			10	10
CYFANSWM		31	32	37	100 Marc
		31%	32%	37%	
Isafswm pwysoli		31-36%	31-36%	33-38%	

Dogfen Fapio

		Deunyddiau Asesu Enghreifftiol	Haf 2022	
Cwestiwn	Dyraniad marciau	Math o gwestiwn/berfau gorchmynnol	Ionawr 2022	
Adran A				
1. (a)	4	Amlinellwch		
(b)	5	Dadansoddwch		
2.	5	Disgrifiwch (AA1)		
3.	6	Aseswch		
4. (a)	4	Amlinellwch		
(b)	6	Archwiliwch		
5. (a)	5	Awgrymwch		
(b)	5	Rhowch grynodeb		
6 (a)	8	Disgrifiwch (AA1)		
(b)	3	Esboniwch		
(c)	9	Aseswch		
7.	6	Trafodwch		
8. (a)	6	Cyfiawnhewch		
(b)	8	Esboniwch		
9.	6	Esboniwch		
10.	4	Disgrifiwch (AA2)		
11.	10	Myfyriwch		

Mae'r holl ferfau gorchmynnol a ddefnyddir yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol wedi cael eu profi gyda rhanddeiliaid, a theimlwyd eu bod yn briodol.

Caiff y ddogfen fapio ei defnyddio i sicrhau y gellir cymharu pob papur byw.